TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Awards in Advanced Welding Skills Level 3

Yn gryno

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau a gwybodaeth weldio i allu gweithio a chynhyrchu uniadau wedi'u weldio mewn safleoedd cymhleth. Mae'n eich paratoi ar gyfer deall prawf cymeradwyo Weldiwr BS EN 287 drwy gael safon a dderbynnir yn seiliedig ar ISO 5817 - uniadau dur wedi'u harc-weldio - canllawiau ar lefelau ansawdd ar gyfer amherffeithrwydd.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sy'n dymuno ymgymryd â phrawf cymeradwyo Weldiwr BS EN 287.

...weldwyr profiadol y mae angen cymhwyster arnynt i fynd ymlaen i waith weldio cymhleth a rheoli ansawdd.

Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs yn ymdrin â'r prosesau weldio Metal Active/Inert Gas Shielding (MAGS/MIGS), Manual Metal Arc (MMA), Tungsten Active/Inert Gas Shielding (TAGS/TIGS) neu Flux Cored Arc

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Welding (FCAW), a bydd angen i chi gwblhau ystod o uniadau lleinweldiad a weldiad-bôn mewn safleoedd weldio megis fertigol, uwchben a llorweddol, gan ddefnyddio dur meddal a phibell a phlât dur gwrthstaen.

Bydd angen i chi adnabod diffygion weldio sylfaenol, gan ddangos sut i adfer ac atal unrhyw namau a all godi, ac addasu a phennu'r amodau ar gyfer weldio yn unol â manylebau perthnasol a gweithdrefnau weldio.

Bydd angen i chi hefyd baratoi ar gyfer weldio drwy gael gafael ar y cyfarwyddiadau angenrheidiol i'r swydd, deunyddiau, offer, cyfarpar ac unrhyw ddogfennaeth, a gwirio ac archwilio'r cyfarpar weldio i wneud yn siwr ei fod mewn cyflwr gweithio diogel ac yn addas ar gyfer ymgymryd â gwaith weldio.

Wedi i chi gwblhau'r cwrs hwn, gallech fynd ymlaen i NVQ Lefel 3 mewn Saernïo a Weldio.

Gofynion Mynediad

Bydd angen i chi gael cymhwyster Lefel 2 mewn Saernïo a Weldio, o leiaf 3 blynedd o brofiad yn y diwydiant o'r prosesau weldio dethol neu gyfweliad i asesu eich sgiliau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi ddarparu eich Cyfarpar Diogelu Personol eich hun (esgidiau dur trwm ac oferôls o ddeunydd gwrthdan).